# Llais Llandyrnog Voice

Ebrill 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 7 £1


## Mae'r Wombls wedi bod wrthi

Bu'r Cyngor Cymuned (gyda chymorth Cadwch Gymru'n Daclus) yn hel sbwriel ar y lonydd o gwmpas y pentre ddydd Sadwrn, 15 Mawrth. Mae'r lluniau'n dangos y dechrau a'r diwedd. Roedd yn fore da o waith – casglwyd 14 bag o sbwriel!



Yn ôl Fitbit Gwen Butler, roedd hi wedi cerdded 7,800 o gamau. Y pethau mwyaf anarferol y cafodd hi hyd iddyn nhw oedd pâr o drôns a hub cap!

Yn anffodus, fe gawson nhw hefyd hyd i nifer o gwpanau coffi, poteli a thuniau diod wedi'u taflu'n fwriadol. Petai pawb yn mynd â'u sbwriel adre i'w waredu, ni fyddai angen helfa sbwriel i gadw'n pentref hyfryd yn daclus.

Diolch i Wendy o Cadwch Gymru'n Daclus am yr offer; Bryn am drefnu'r cyfan; Emyr, Elaine, Ruth, Jane a Geraint am eu help ar y diwrnod; ac i bawb am eu sylwadau calonogol a gafwyd ers hynny.

Gwnewch eich gorau i gadw ein pentref hyfryd yn daclus.



# Pytiau newyddion

Croeso i'r babi Lydia, Tŷ Newydd, chwaer fach i Molly. A hefyd i Macsen Clwyd, mab Manon a James. Mae Macsen yn frawd bach i Rhiannon, ac yn ŵyr i Anwen a Bryn, Bryn Ffolt.

Pob lwc i Mason Powell sydd wedi mynd drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar yr unawd offerynnau taro.

Pen blwydd hapus hwyr i Veronica Roberts, a fu'n dathlu'r 80 yn ddiweddar. Ac i Coral Clark, Cefn Bithel, a fu'n dathlu'r 50 ddiwedd mis Mawrth.

Llongyfarchiadau i Myfanwy a Gwilym, Gwylfan ar ddathlu eu priodas ddiemwnt – 60 o flynyddoedd, yn ystod y mis, ac i Phil a Lyn Rose ar ddathlu eu pen blwydd priodas ruddem.

Dymunwn bob hapusrwydd i John ac Olwen Rowlands yn eu cartref newydd yn Ninbych a gobeithiwn y byddwch yn dal i ymweld â ni. Yr un yw'r dymuniad i Ifan Dafydd yn ei gartref newydd yn Clwyd Terrace.

Croeso i Helen, Garry, Cara a Sean Fiskin sydd wedi dod i fyw i Maes y Wern, gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlwn â Pauline Jones a'r teulu, Nant Glyd, ar golli Dewi.

**Clwb Sgrabl**

Ar y trydydd dydd Iau o'r mis (17 Ebrill yw'r un nesaf), am 2 o'r gloch, bydd cyfle i chwarae sgrabl a gemau bwrdd eraill yn ystafell gymunedol y siop. Croeso cynnes i bawb.

Hefyd mae gemau bwrdd eraill ar gael i chi eu defnyddio.






## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

**(sylwch na fydd y siop ar agor ar ddydd Sul)**

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Maw | 1af | Clwb Llyfrau, 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Llun | 7fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Mer | 9fed | Undeb y Mamau, 2pm<br>Cyfarfod pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | 14eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 15fed | Clwb Llyfrau, 10am<br>Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | 16eg | Tuesday Club, 2pm |
| Iau | 17eg | Gweithdy crefftau, 6–9pm |
| Sad | 19eg | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 28ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 29ain | Clwb Llyfrau, 10am |

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| 6ed | 11.15 | Boreol Weddi |
| 13ed | 11.15<br>15.30 | Cymun Bendigaid<br>Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 20fed | 11.15 | Cymun Bendigaid y Pasg |
| 27ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 18fed | 2pm | Myfyrdod ar ddydd Gwener y Groglith |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 6ed | 9.45 | Parch. John Owen |
| 13eg | 9.45 | Parch. Andras Iago (Gellifor) |
| | 17.00 | Y Gymanfa Ganu |
| 20fed | 10.00 | Oedfa'r Fro – Dyffryn |
| 27ain | 11.00 | Llinos Mary |

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

I hurio'r **Ystafelloedd Coco,** anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Maw 1af | Cyfarfod Blynyddol Cangen Dyffryn Clwyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 6–9pm |
| Mer 2il | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Iau 3ydd | Bingo Pasg yr Ysgol | 5.30pm |
| Gwe 4ydd | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad 5ed | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 7fed | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 8fed | Pwyllgor y Sioe Flodau (ystafell waelod)<br>Pwyllgor y Clwb Merlota | 7–8pm<br>7–8.30pm |
| Mer 9fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe 11eg | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad 12fed | Bore coffi: Yr Ambiwlans Awyr | 10am–12pm |
| Sul 13eg | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 14fed | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 15eg | Pwyllgor y Gymdeithas Hanes | 6–9pm |
| Gwe 25eg | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sad 26ain | Bore coffi: Yr Eglwys | 10–11.30am |
| Sul 27ain | Parti pen blwydd | I'w drefnu |
| Llun 28ain | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 29ain | Cangen Dyffryn Clwyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: 'Plas yn Rhiw gan Mary Thomas | |
| Mer 30ain | Pilates | 7.15–8.15pm |

# Capel y Dyffryn




Nos Lun 3 Mawrth daeth tymor y Gymdeithas i ben pan gynhaliwyd Swper Gŵyl Ddewi gyda swper blasus tu hwnt. Cafwyd adloniant hyfryd gan y ddeuawd Dyffryn Divas – Catrin a Gwyddfid, Rhuthun.  Diolchwyd i bawb am noson hyfryd gan Dafydd Meirion.




**Y Gymdeithas** Nos Lun 24 Chwefror, y siaradwraig wadd oedd Francesca Sciarrillo, Eidales, ei theulu wedi symud o'r Eidal i'r Wyddgrug yn y 1960au. Pan oedd hi'n ifanc, penderfynodd Francesca ddysgu Cymraeg, a dod mor rhugl fel yr enillodd hi Fedal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd yn 2019. Mae mor frwdfrydig am yr Iaith Gymraeg – mae'n byw ei bywyd bob dydd ac hyd yn oed yn breuddwydio yn y Gymraeg!. Mae'n gweithio i Gyngor Llyfrau Cymru, yn ysgrifennu colofn wythnosol i Lingo.360.Cymru, ac yn trefnu grwpiau darllen ar gyfer siaradwyr a dysgwyr yn Sir Fflint. Erbyn hyn mae'n byw yn Rhewl.



Bore Sul 23 Mawrth, daeth cynulleidfa dda i wasanaeth bedydd Myfanwy, merch fach Steffan a Zoe Parry, dan ofal y Parch. Andras Iago. Yn ystod y gwasanaeth, cafwyd datganiad swynol gan blant bach y teulu, darlleniadau gan Siân, gweddi gan Huw, ac Anwen wrth yr organ.  Roedd hwn yn wasanaeth cofiadwy, ac yn dilyn y gwasanaeth croesawodd y teulu bawb o'r gynulleidfa i ymuno â nhw yn y Festri am luniaeth a sgwrs dros baned a chacen.

Cynhaliwyd yr Ysgol Sul ar yr 16eg Mawrth, gan barhau â thema Arch Noa. Bu'r plant yn brysur yn peintio enfys anferth a chreu cymylau gwynion gydag ychydig o addurniadau ynddyn nhw, i arddangos cyfamod Duw â'r byd. Buont yn chwarae gwahanol gemau anifeiliaid a chanu Cân yr Anifeiliaid. Bydd Ysgol Sul fis nesaf ar y 6ed o Ebrill. Croeso cynnes i bawb!

# Fy nghar cyntaf

Pam does dim ceir rhydlyd i'w gweld mwyach? Dydy ceir modern ddim yn rhydu. Maen nhw wedi'u gwneud o ddeunyddiau ysgafnach, plastig a ffeibr carbon. 'Peidiwch byth â phrynu car gan neb sy'n byw ar lan y môr gan fod yr heli yn yr aer yn gwneud i geir rhydu'n gyflymach' – ydych chi'n cofio'r cyngor hwnnw?

Mae ein car cyntaf yn aros yn ein cof, gyda sawl atgof, da neu ddrwg. Ydych chi'n cofio'ch car cynta chi? Wrth gwrs eich bod chi, mae pawb yn gwneud. Mae rhai ohonon ni'n arbennig o hoff o'r peiriannau mecanyddol hyn a hyd yn oed yn eu henwi. Tappy oedd enw fy nghar cyntaf i, Talbot Horizon. Cafodd yr enw yma oherwydd bod y tapedi yn yr injan yn gwneud sŵn tapeti-tap tapeti-tap wrth fynd. Roedd y Talbot yn enwog am wneud y sŵn arbennig yma.

Wrth droi'n 17 oed, fy mhrif nod oedd cael fy nhrwydded yrru. Cefais wersi ac ychydig fisoedd yn ddiweddarach fe lwyddais yn y prawf y tro cyntaf. Doedd dim prawf theori yn y dyddiau hynny. Dwi'n cofio mynd ar fy mhen fy hun am y tro cyntaf yn Suzuki Mam. Es i Landyrnog i'r siop – taith fer, ond roeddwn ar fy mhen fy hun, yn gyrru, ac o'r diwedd yn rhydd i fynd i unrhyw le. Roeddwn i'n ffodus iawn o gael ychydig o arian yn fuan wedyn, gan fy ngalluogi i brynu fy nghar cyntaf – Tappy, o garej leol. Car hatchback gan Chrysler oedd Tappy, ond roedd yn gar trwm iawn i mi ei yrru (doedd dim llywio â phŵer yn y dyddiau hynny), wedi'i adeiladu fel tanc, ac â gwresogydd nad oedd byth yn gweithio. Roeddwn i'n gwisgo het a menig i yrru yn ystod y gaeaf. Injan 1.1 litr oedd ganddo, felly doedd dim gobaith gen i i fynd i fyd rasio.

Aeth Tappy gyda fi i fy mlwyddyn olaf yn y brifysgol a byddai'n cludo sawl ffrind i'r coleg yng Nghaerwrangon. Ar ôl i mi raddio, llwythais fy holl eiddo iddo, gan gynnwys cwpwrdd llyfrau derw roeddwn i wedi dod o hyd iddo mewn siop hen bethau yn Malvern. Cariodd Tappy y cyfan adre, yr unig ran anodd iddo yn y daith hir yn ôl i Ogledd Cymru oedd




Bwlch yr Oernant. Bu'r injan 1.1 litr yn tuchan i fyny'r A542 serth hyd at gaffi'r Ponderosa, ac fe arhoson ni yno am seibiant cyn hwylio i lawr yr ochr arall.

Aeth Tappy â fi i fy swydd gyntaf yn Lerpwl, doedd e ddim gwaeth ar ôl dau 'fwmp' ar lonydd cul Cymru, a rhywun yn torri i mewn iddo yn Leeds. Daeth adeg pan oedd angen car ag injan fwy arna i gan fod fy swydd yn golygu teithio ar hyd a lled y wlad, felly daeth Rover 216 Sprint yn lle Tappy. Profiad trist iawn oedd ffarwelio â Tappy. Ond roedd gen i gar ag injan gryfach, gwresogydd a oedd yn gweithio, a radio – moethusrwydd.

Gan Tappy ces i'r annibyniaeth roeddwn i'n dyheu amdani. Roedd injan syml o dan y boned, ac roeddwn i'n gallu tsiecio'r olew, a.a., yn hawdd iawn. Yn wahanol i geir modern sy'n bîpio ar bopeth, yn goleuo'r panel deialau fel goleuadau Blackpool gyda rhybuddion a'r newyddion diweddaraf am y tywydd. Doedd gan Tappy'r un o'r rhain. Doedd dim satnav, synwyryddion parcio, camerâu, ffenestri electrig na chloi canolog. Fi oedd piau Tappy a does dim byd tebyg i'ch car cyntaf, a dal yr allweddi i ddangos mai CHI yw ei berchennog, a'r cyfrifoldeb sy'n dod gyda hynny. Mae'r rhyddid yn hudolus, ac roedd yn cynrychioli bod yn oedolyn ac annibyniaeth, ac roeddwn i'n dwli arno.

A oes gennych chi atgofion am eich car cyntaf? Beth am ysgrifennu pwt amdano a'i anfon aton ni?

*Hazel Wright*

# Newyddion am y ffatri

Dyma'r newyddion diweddara gan Harvey Jackson, rheolwr Procter Johnson, sydd wedi dod i hen safle'r Hufenfa.

'Dydyn ni ddim yn cynhyrchu'n llawn eto, ond mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda. Mae tua 65 y cant o'r gweithlu yn Llandyrnog rŵan ac rydyn ni'n gobeithio y bydd staff y swyddfa yma yn ystod yr wythnosau nesaf. Ein nod yw y bydd y safle'n cynhyrchu'n llawn erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae'n bleser gen i ddweud ein bod ni wedi cyflogi dau o'r pentre hyd yn hyn.'

Mae hynny'n newyddion da iawn. Diolch, Harvey.

# Gild Trefoil

Dathlodd yr aelodau Ddydd Gŵyl Dewi drwy godi baner y Ddraig Goch a bwyta cacennau cri. Roedd cennin Pedr hardd yn addurno'r bwrdd. Mwynhaodd yr aelodau wneud cracers a basgedi Pasg. Bydd y cyfarfod nesaf yn nhŷ aelod yn Ninbych.



# Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Mawrth, daeth aelodau'r Tuesday Club at ei gilydd mewn lle gwahanol i'r arfer – Neuadd y Pentre, i wrando ar Ddosbarth Iau Ysgol Bryn Clwyd yn ein diddanu. Cawsom wledd o ganu afieithus – yr emynau *Cofia bob amser* a *Diolch, diolch Iesu*, a'r hen ffefryn *Sosban fach*. Bu'r plant yn dysgu *Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes* ar gyfer yr E-steddfod. Yn yr eisteddfod hon mae'r ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ar-lein. Roedd Ysgol Bryn Clwyd yn mynd i gystadlu ddydd Llun 31, Mawrth. Wedyn fe glywson ni *Deffra*, a'r plant yn gorffen drwy ganu I *have a song to sing*, gyda'r tri disgybl sydd ym Mlwyddyn 6 yn canu unawdau yn y penillion. Mae'r gân hon yn arbennig gan ei bod yn cael ei chanu gydag iaith arwyddo.



Mwynhaodd aelodau'r clwb y perfformiad yn fawr iawn a llongyfarchwyd Mrs Lyon a'r aelodau eraill o'r staff oedd gyda hi ar eu gwaith ardderchog gyda'r disgyblion. Gweinwyd lluniaeth ysgafn i'r disgyblion ac i'r aelodau, a thynnwyd y raffl.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 16 Ebrill, yn yr Ystafelloedd Coco fel arfer. Croeso cynnes i aelodau newydd.

# Newyddion da

Mae'r gymuned wedi bod yn llwyddiannus mewn cael arian o'r Gronfa Lefelu. Yn unol â thelerau'r grant, bydd yn talu am lefelu a gwastatáu cae pêl-droed Cae Nant. Mae hi wedi bod yn anodd penderfynu p'run sydd orau, chwarae'r hanner cyntaf ar i fyny neu ar i lawr, felly dylai hyn helpu capteiniaid timau yn y dyfodol.

# Adnewyddu Sgwâr yr Eglwys

Mae'n siŵr ei bod hi'n wir dweud bod y gwaith ar yr adeiladau rhestredig amlwg hyn (heblaw am yr eglwys ei hun, wrth gwrs) wedi gwneud argraff fawr ar bawb. Mae'r ffenestri newydd yn wych ac mae gweld ôl yr hen fynedfa yn y gwaith brics mor ddiddorol. Tynnwyd yr hen lun tua 1918 ac mae'n dangos yr adeilad fel dau dŷ a swyddfa bost (o lyfr y Gymdeithas Hanes, *Trem yn Ôl*).

Yn ôl rhestr Cadw o adeiladau rhestredig, codwyd y bythynnod yn yr ail ganrif ar bymtheg, fel rhan o grŵp a oedd yn cynnwys yn wreiddiol ddeg eiddo gyda gerddi. Mae'n debygol mai elusendai'r plwyf oedd y rhain. Gostyngwyd nifer y tai i dri pan godwyd yr Ystafelloedd Coco yn 1881.

Llongyfarchiadau i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith. Edrychwn at weld y bythynnod wedi'i gorffen a rhywun yn byw ynddyn nhw eto.






DBP Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)


Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

# Llan Llanast




Yn ein Llan Llanast mis Mawrth, fe ddysgon ni am greu'r byd. Gwnaethon ni goeden hardd i ddangos ychydig o greadigaethau Duw a mobeils pren o gysawd yr haul yn dangos y planedau i gyd. Hefyd, buon ni'n tynnu llun o wynebau ein gilydd, ac roedd hyn yn ddoniol iawn! Y wers oedd mai ni sy'n gyfrifol am ofalu am fyd Duw, felly gwnaethon ni borthwyr i adar i'w rhoi yn ein gerddi i fod yn garedig wrthyn nhw.

Bydd ein sesiwn nesaf ddydd Sul, 13 Ebrill ac mae croeso i bawb ymuno â ni.






# Bryn â'i fotobeic

Llwyddais i basio fy mhrawf gyrru car yn 1975. Dwi'n cofio hyn yn dda oherwydd dywedodd yr arholwr – y dyn â'r clipfwrdd – wrtha i, 'Mr Davies, peidiwch â stopio oni bai fy mod i'n dweud wrthoch chi am wneud.' Roedd hi'n mynd yn dda nes i mi ddod ar draws lori bins yn rhwystro'r ffordd. Doedd Mr Clipfwrdd yn dweud dim. Felly, doedd dim amdani ond bod mor sylwgar â phosib, mynd i fyny'r palmant a heibio'r lori. Ar ôl i mi ddeall fy mod i wedi llwyddo, gofynnais i Mr Clipfwrdd am y gyrru braidd yn anarferol ar hyd y palmant. Dywedodd wrtha i, 'Mae'n iawn, fe wnaethoch chi fentro ac roeddech chi'n sylwgar iawn.'

Ond doedd gen i ddim car yr adeg honno, felly ar feic modur roeddwn i'n teithio – Suzuki 120 roeddwn i'n gallu'i reidio gyda phlatiau dysgwr. Roeddwn i'n cael hyfforddiant yng Ngholeg Technegol Wrecsam, ac yn aml yn y gaeaf byddwn i'n reidio ar eira a rhew. Roedd Dad yn gwybod fy mod i'n fyr ac wedi prynu beic modur isel i fi, fel fy mod i'n gallu defnyddio fy nghoesau fel *stabilisers* ar y rhew.

Tua phythefnos ar ôl llwyddo yn fy mhrawf gyrru, roeddwn i'n ôl yn y Rhyl i sefyll fy mhrawf reidio beic modur. Dywedodd dyn arall â chlipfwrdd wrtha i am fynd i ryw gyfeiriad arbennig tra oedd o'n fy ngwylio i o fin y ffordd. Rywsut fe wnaethon ni fethu'n gilydd, a phan es i'n ôl i'r man cychwyn, roedd o yno'n disgwyl amdana i ac yn edrych yn reit flin. Fe fethais i'r prawf a wnes i ddim ei drio eto, a dwi wedi difaru hynny. Felly yn ddiweddar, dyma wneud rhywbeth yn ei gylch!

Y cam cyntaf yw hyfforddiant sylfaenol gorfodol – sesiwn ddwys, wyth awr o hyd, gwaith ymarferol a theori. Roedd Alex, a oedd newydd gael ei ben blwydd yn 17 y diwrnod cynt, yn cael ei hyfforddi hefyd. Gofynnodd yr hyfforddwr, Paul, ychydig o gwestiynau i ni am Reolau'r Ffordd Fawr: 'Bryn, beth byddet ti'n disgwyl ei weld ar groesfan Pegasus?' Dywedais fy mod i'n gwybod mai ceffyl o fyd mytholeg oedd Pegasus. 'Ti'n iawn, ceffyl.' Mae'n debyg bod y botwm rheoli ar groesfan o'r math yma yn uchel fel bod rhywun sydd ar gefn ceffyl yn gallu ei ddefnyddio.

Gofynnodd i Alex beth byddai'n disgwyl ei weld ar groesfan Toucan – doedd o ddim yn disgwyl cael 'toucan' yn ateb. Mae'n debyg bod hyn yn golygu bod dau yn gallu croesi – cerddwyr a beicwyr.

Wedyn fe gawson ni brawf ymarferol. Ar ôl dangos i ni sut i reoli'r beic modur, gofynnwyd i ni reidio i mewn ac allan o res o gonau, gan stopio'n sydyn yma ac acw. Yn anffodus, tynnodd yr hogyn Alex ar ddolen y *clutch*, gan feddwl mai dolen y brêc oedd hon, ac aeth ar ei ben i *container*. Doedd o'n ddim byd mawr, roedd o'n iawn, ond roedd yr hyfforddwr yn gadarn iawn gydag o. Oedd o'n barod i fynd ar y ffordd, mewn difri?

Yn fuan roedden ni ar y ffordd. Roedd Paul yn gallu siarad â ni drwy system sain yn ein helmedau, yn ein rhybuddio o unrhyw beryglon posib o'n blaenau. 'Bydd yn ofalus ar Bont y Foryd, Bryn, mae'r gwynt yn gryf.' Ac oedd, roedd o'n iawn – fe ges i dipyn o woblar yn fanna! 'Gwylia'r lori graeanu!' A do, fe gawson ni i gyd gawod o raean. Ac roedd hi'n bwrw eira – a bwrw glaw.

Wrth gyrraedd Pensarn, dyma grynhoi barn yr hyfforddwr yn y maes parcio. Yr unig gyngor ges i ganddo oedd, 'Pan fyddi di'n cyrraedd cyffordd ac yn mynd i droi i'r chwith neu i'r dde, arhosa yng nghanol y lôn. Ti piau'r "bocs" hwnnw. Os na wnei di hyn, bydd rhyw ******* mewn car yn torri ar dy draws.' Roedd hi'n amlwg ei fod yn siarad o brofiad. Dwi ddim yn mynd i ymddiheuro am gymryd fy lle ar unrhyw gyffordd o hyn ymlaen.

Mi ges i fy nhystysgrif, ac felly rwy'n cael gwneud dau fodiwl arall – modiwl theori a modiwl ymarferol a fydd yn caniatáu i mi reidio beic mwy. Ond dydy hi ddim yn hawdd o gwbl – nac yn rhad! Bydd yn rhaid i fi ystyried prynu beic modur addas a chyfreithiol i ddysgwr ac ymarfer am ychydig oriau i fynd ymlaen i'r cam nesa. Gobeithio, wir!

**Bryn Davies**

# Sefydliad y Merched

Mae aelodau Sefydliad y Merched, Llandyrnog a Llangwyfan wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn aelodau o'r mudiad. Ar ôl dathlu canmlwyddiant y Sefydliad yn Llandyrnog yn 2021, mae nifer yr aelodau wedi gostwng. Dyma oedd y prif reswm, ynghyd â chost gynyddol yr aelodaeth. Ond byddwn yn parhau i gyfarfod fel 'Grŵp Cyfeillgarwch' yn yr Ystafelloedd Coco ar ddydd Mawrth cynta'r mis am 7 o'r gloch. Mae rhaglen o siaradwyr gwadd a theithiau wedi'i threfnu am y flwyddyn, felly dewch aton ni.




Ym mis Ionawr cawson ni sgwrs ddiddorol gyda sleidiau ar hanes y siopau/swyddfeydd post yn Llandyrnog. Yr un gyntaf yn 1839 oedd Siop y Waen ar gyrion Llandyrnog, ar y ffordd tuag at Ddinbych. Roedd siop y drws nesaf i'r Golden Lion o 1841 tan 1980, wedyn symudodd i'w safle presennol. Hefyd roedd siop ar gornel Clwyd Terrace ac un arall drws nesa iddi. Byddai siop mewn fan o'r pentre yn mynd i Langwyfan ar benwythnosau, pan fyddai pobl yn ymweld â'u perthnasau yn y sanatoriwm. Mae swyddfa'r post wedi bod yn Sgwâr yr Eglwys, Clwyd Terrace, West Mead (Monfa heddiw), drws nesa i'r Golden Lion ac yn ôl nawr yn Clwyd Terrace.

Mae hen luniau'r pentre yn dangos cymaint sydd wedi newid gyda'r blynyddoedd. Dangoswyd hen luniau a gwybodaeth am gangen Llandyrnog o'r Sefydliad, a ddechreuwyd yn 1921, i orffen y noson.

Ym mis Mawrth buon ni'n ymweld ag Amgueddfa Sefydliad y Merched ar Ynys Môn – cartref y gangen gyntaf ym Mhrydain a sefydlwyd yn 1915. Wedyn cawson ni ginio a chyfle i siopa yn yr orsaf yn Llanfair PG.

Bydd Jackie LeFevre yn rhoi sgwrs ar 'Hud stori' y mis yma, a bydd yr ymweliad nesaf â'r Empire Theatre, Lerpwl, i weld *War Horse*.

**Iona Pierce**

# Mike Neumann

Llongyfarchiadau mawr i Mike Neumann, argraffwr y cyhoeddiad hwn, gan bwyllgor y Llais ar ddathlu 25 mlynedd o'i fusnes eleni! Diolch o galon am dy waith ardderchog, Mike.

Mike Neumann
Printers Ltd
01745 814067
07766 807498
41 Vale Street, Denbigh LL16 3AH
neumannprinters@aol.com
neumannprintersdenbigh.co.uk

**FFRINDIAU YSGOL BRYN CLWYD**

**Bingo'r Pasg**

**3 Ebrill 2025**
**I ddechrau am 5.30**
**yn Neuadd y Pentre**
**Lluniaeth ysgafn, cacennau a raffl!**

# Ysgol Bryn Clwyd

Gan fod y gwanwyn wedi dod, mae'r ysgol gyfan wedi bod allan yn yr awyr agored hyd yn oed yn fwy nag arfer.



Mae'r plant wrth eu boddau'n defnyddio eu hystafelloedd dosbarth newydd ac mae tymor y teithiau wedi dechrau. Aeth dosbarth y babanod i Lyn Brenig, a'r dosbarth iau i Ddyfrbont Pontcysyllte a mwynhau taith mewn cwch ar y gamlas.








Mae'r dosbarth iau wedi cael hanner tymor cerddorol iawn gyda gwersi chwarae'r glockenspiel gan Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych a chanu i'r Tuesday Club, a ddaeth i ymweld â ni yn yr ysgol.

Mae wythnosau ola'r tymor yn llawn hwyl. Buon ni'n cystadlu yn yr e-steddfod ddiwrnod ola mis Mawrth, eisteddfod genedlaethol a gafodd ei darlledu'n fyw ar-lein. Nos Iau, 3 Ebrill bydd Cyfeillion yr Ysgol yn cynnal Bingo'r Pasg yn neuadd y pentre am 5.30 – croeso cynnes i bawb!

# Hanesion Hazel

Mae *Gardeners' World* yn ôl ar y teledu unwaith eto (BBC 2) – arwydd pendant fod y Gwanwyn wedi dod! Dyma fy nos Wener – mae'r wythnos waith wedi'i gorffen ac mae'n bryd edrych ymlaen at y Sul, ar yr amod nad yw'r BBC yn darlledu'r rhaglen ar adegau rhyfedd. Y llynedd roedd yn rhaid i fi chwilio amdano – felly diolch am i-player. Dydy unrhyw adeg arall ddim yn iawn o gwbl, annwyl BBC.

O'r diwedd mae'r ffrâm magu hadau wedi dod o'r cwpwrdd ac yn barod ar gyfer yr holl hadau. Yr hadau cyntaf dwi'n eu plannu yw'r tomatos. Mae gwres y ffrâm yn gwella cyfraddau egino, a gan fod y gwerthwyr hadau wedi lleihau nifer yr hadau mewn pecyn yn arw, mae angen pob help posib i sicrhau bod y cyfan yn egino. Rydw i wedi hau dau fath ychwanegol o domatos heblaw am fy *Alicanti* arferol – *Black Beauty* a *Sun Gold*. Fel mae'r enw'n awgrymu, tomato lliw tywyll iawn, a thomato melyn. Roeddwn yn hynod o falch o weld ychydig o ddail yn codi allan o'r compost un bore, yn dangos eu bod ar eu ffordd. Mae'n dal i fod yn brofiad cyffrous i weld y dail ifanc gan ei fod yn gyfnod o optimistiaeth a gobaith am flwyddyn dda.



Mae fy ffrâm brifiant – fy *propagator* – yn gwneud y gwaith caled i gyd i fi, gan ei fod yn gosod y tymheredd a'r lleithder. Dwi'n argymell eich bod yn cael un, dim ond £30 oedd cost fy un i. Ffrâm brifiant fach, ond mae'n gwneud y tro'n iawn. Beth bynnag, i'r rhai sydd heb un, mae tair elfen i lwyddiant, sef tymheredd, lleithder a golau.

Mae tymheredd yn bwysig iawn yn y gwaith o annog hadau i dyfu, rhwng 20 °C a 30 °C, ond mae angen tymheredd uwch na 18 °C ar domatos, yn fy marn i.

O ran lleithder, mae hadau'n hoffi bod yn llaith, felly heuwch nhw mewn pridd sy'n cadw lleithder. Dwi'n dal i ddod i arfer efo pridd heb fawn, ac mae'n gallu ffurfio crawen galed ar yr wyneb os yw'n sychu. Un dull o osgoi hyn yw rhoi *vermiculite* ar ben eich hadau (fel mae Monty Don yn gwneud). Mwyn *phyllosilicate* dyfrllyd yw hwn, mae'n ysgafn, fydd o ddim yn rhwystro hadau rhag egino, mae'n dal dŵr, ac mae'n gadael golau drwyddo i annog egino da. Yn bwysicaf oll, dydy o ddim yn ffurfio crawen galed.

Ac yn olaf, golau – rhowch eich hadau ar sil ffenest i gael gymaint o olau â phosib.

Os ydy'r tair elfen hyn yn bresennol, o fewn 7–10 diwrnod dylech weld planhigion bach yn ymddangos, yn barod i'w rhoi mewn potiau. Pan fydd y tywydd yn ddigon cynnes, gallwch eu rhoi nhw yn y tŷ gwydr. Cyn hynny mae fy mhlanhigion ifanc i'n byw ar sil ffenest sy'n wynebu'r de yn y fy ystafell sbâr. Mae ganddi ffenest fawr – yr amgylchiadau perffaith i'r planhigion dyfu'n rhai cryf. Mae'r teulu wedi dod i arfer â rhannu eu llofft â thomatos, ciwcymbyrs a *chillis*, ac yn gofalu eu bod yn cau'r llenni heb daro planhigyn a hwnnw'n syrthio ar y carped. Credwch chi fi, mae hyn yn wedi digwydd, felly dwi'n eu dysgu'n dda – y teulu, nid y planhigion.

Dwi'n eich annog chi i gyd i roi cynnig arni. Buddsoddwch mewn bag bach o gompost, naill o'ch canolfan arddio leol, neu o Lidl hyd yn oed, a heuwch ychydig o hadau. Gwyliwch hud y pethau bach hyn yn aeddfedu'n blanhigion rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw, yn eu cynaeafu ac yn eu mwynhau.

**Hazel**

# Treftadaeth Cristnogaeth

Yn bendant, mae Cristnogaeth yn rhan annatod o ddiwylliant Prydain. Gan fod nifer y rhai sy'n dweud eu bod nhw'n Gristnogion wedi gostwng o 57% yn 2011 i 43% yn 2021, erbyn hyn mae'n siŵr bod sawl un ddim yn sylweddoli o ble mae ein traddodiadau a'n harferion yn dod.

Trefn ein hwythnos yw cylch o saith diwrnod gydag un diwrnod o orffwys – cyfraniad Iddewiaeth at ein cymdeithas. A'r un amlwg – mae ein blynyddoedd wedi'u rhifo ar ôl geni Crist.

Yr enw ar y dyddiau pan dydyn ni ddim yn gweithio yw gwyliau. A gŵyl yw diwrnod wedi ei neilltuo a'i gadw'n barchus yn flynyddol i goffáu rhyw sant.

A dweud y gwir, mae sail grefyddol i'r rhan fwyaf o'n dathliadau blynyddol.

- Mae addunedau'r flwyddyn newydd yn draddodiad Piwritanaidd o wella'n ysbrydol.
- Mae diwrnod Santes Dwynwen a Sant Ffolant yn dathlu seintiau.
- Mae dydd crempog, neu Ddydd Mawrth Ynyd a rhoi'r enw cywir, yn tarddu o fwyta storfeydd bwyd cyn yr ymprydio yn ystod y Grawys.
- Mae Sul y Mamau'n nodi hanner ffordd drwy'r Grawys. Enw arall ar Sul y Mamau yw Sul Ymborth, *Refreshment Sunday*.
- Mae Noson Calan Gaeaf, Halloween yn ffarwel olaf i eneidiau'r rhai sydd newydd farw cyn iddyn nhw fynd i'r byd nesaf ar ddydd Gŵyl yr Holl Saint – 1 Tachwedd.
- Mae noson tân gwyllt yn coffau bygythiad y Catholigion i ddiogelwch Prydain.

**Gwleidyddiaeth**

Beth yw anthem Lloegr? 'Duw cadwo'r brenin', a'r brenin wrth gwrs hefyd yn bennaeth yr Eglwys Anglicanaidd – yr unig wlad lle mae'r brenin yn bennaeth yr eglwys.

Mae dydd Sant Andreas yn ŵyl genedlaethol yn yr Alban, felly hefyd gŵyl Sant Padrig yn Iwerddon. Mae croesau Andreas, Padrig a Sior ar faner Jac yr Undeb yn coffáu tri merthyr Cristnogol.

**Iaith**

Gellid dadlau mai cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a sicrhaodd barhad yr iaith.

Mae tarddiad crefyddol i nifer fawr o'n hebychiadau: nefi wen – nefoedd wen, rargol – yr Arglwydd, iyffach – uffern. Mae *blimey* yn dod o *God blind me*, a *strewth* o *God's truth*.

O'r Hen Destament daw sawl dywediad digon cyffredin yn ein hiaith bob dydd: deryn bach wedi dweud wrtha i, bwch dihangol, cannwyll ei lygad, dim byd ond cnawd ac asgwrn, fel oen i'r lladdfa, llewpard yn newid ei smotiau, a grawn surion.

O'r Testament Newydd a'r Efengylau cawn yr ymadroddion bedydd tân, halen y ddaear, perlau o flaen moch, y dall yn arwain y dall, maen melin am eich gwddf, ar drawiad amrant, a llafur cariad.



**Bwyd**

Yn draddodiadol caiff cacen Simnel ei bwyta ar Sul y Mamau. Cacen ffrwythau ydy hon gydag un belen ar ddeg o farsipán ar ei phen i gofnodi'r disgyblion heb Jiwdas. Roedd bwyta crempog yn gyfle i wagu'r cwpwrdd bwyd cyn dechrau'r ymprydio dros y grawys. Roedd *hot cross buns* yn cael eu bwyta ar ddydd Gwener y Groglith i dorri'r ympryd ar ddiwedd y Grawys, a bwyta wyau siocled yn dathlu'r atgyfodiad.

Dechreuodd MacDonalds gwerthu *fillet o'fish*, gan eu bod nhw'n gwerthu llai o byrgyrs ar ddydd Gwener, oherwydd arfer y Catholigion yn bennaf o beidio â bwyta cig ar y diwrnod hwnnw.

**Cerddoriaeth**

Yn ogystal ag offerennau, oratorios, a chantatas cysegredig, mae crefydd yn thema gyson ymhlith cerddorion mawr eu bri, e.e. o ganu gospel Elvis a Mariah Carey, i emynau Bob Marley a Van Morrison.

Yn ein heisteddfodau mae'r gystadleuaeth canu emyn yn boblogaidd, a sawl cân grefyddol yn gân gosod.

# Y Siop Gymunedol a'r Hwb




Roedd siop y pentre yn falch o gael ymweliad gan yr aelod lleol o'r senedd. Dyma Gareth Davies, AoS Dyffryn Clwyd, gydag Emma, Viv ac Emyr.

## Cymanfa Ganu Sul y Blodau

**13 Ebrill am 5 o'r gloch**

**Capel y Dyffryn,**
**Llandyrnog LL16 4HL**

Arweinydd: Trystan Lewis
Organydd: Rhys Roberts

**Bydd casgliad tuag at Gofal Dydd y Waen a chronfa adeiladau Capel y Dyffryn**

***Am ragor o fanylion, cysylltwch â Bryn Davies: 07585 170592***

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Newyddion o fyd yr alpaca



Harvey yw fy enw i. Rydw i'n dair blwydd oed (bydda i'n bedair ym mis Mehefin!) ac yn alpaca. Efallai eich bod chi wedi cyfarfod â fy ffrind Cedric eisoes yn *Llais Llandyrnog*.

Fi yw arweinydd y praidd, sy'n golygu mai fi yw bòs y grŵp o alpacas rydw i'n byw gyda nhw. Rydw i bob amser yn dawel ac yn gall – yn wahanol i rai o'r lleill! Rydw i hefyd yn fwy, yn drymach ac yn gryfach na'r lleill, felly mae'n anoddach i fy 'nghaethweision' dynol, Edith a Mark, fy nal i pan maen nhw'n torri ewinedd fy nhraed neu'n rhoi meddyginiaeth i fi.

Un o fy hoff ddanteithion yw darn o foronen – www, rydw i wrth fy modd gyda moron! Mae'n rhaid i Edith eu torri'n ddarnau mân rhag ofn y bydda i'n tagu arnyn nhw (rydyn ni'n tueddu i fwyta'n rhy gyflym, felly gallen ni dagu os yw ein bwyd yn ddarnau rhy fawr). Rydw i hefyd yn mwynhau rholio ar y tarmac! Ydych, rydych wedi deall hynny'n iawn! Weithiau rydyn ni'n cael 'amser yn yr ardd', hynny ydy, rydyn ni'n cael dod allan o'n cae bach ni ac i mewn i'r ardd i redeg o gwmpas. Rydw i wrth fy modd yn gorwedd ar y ffordd lychlyd i'r tŷ a rholio o gwmpas, i grafu fy nghefn ac ymestyn fy nghoesau.

Gan ei bod hi'n ddiwedd y gaeaf, mae ein cnu'n drwchus iawn. Bydd dyn o'r enw Tom yn ymweld â ni ym mis Mai i'n cneifio ni. Rhaid i ni gael ein cneifio neu byddwn ni'n mynd yn rhy boeth yn yr haf, hyd yn oed yng Nghymru. Mae Tom yn arbenigo ar gneifio alpacas – rhaid ein cneifio ni mewn ffordd wahanol i gneifio defaid, oherwydd mae ein croen ni'n deneuach o lawer na chroen dafad. Rhaid iddo fod yn dynn iawn, neu fe allai'r cneifiwr dorri ein croen. Dydyn ni ddim yn hoff iawn o Tom, ond rydyn ni'n gwybod bod rhaid iddo wneud ei waith, ac mae'r cyfan ar ben o fewn 10 munud. Rydyn ni'n edrych mor smart ar ôl ein cneifio, ac yn fach – rydyn ni'n greaduriaid fflwfflyd iawn! Ffaith ddiddorol – ar ôl i ni gael ein cneifio, dydyn ni ddim yn adnabod ein gilydd am 24 awr! Dyma lun ohono i ar ôl diwrnod cneifio y llynedd.

**Harvey'r alpaca**



# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth o Gyngor Cymuned Llandyrnog

Dymunodd y Cyngor wellhad buan i'r Cyngh. McGuire.

Roedd swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn bresennol ac mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn un eithaf prysur:

- Damwain traffig ar y ffordd – y gyrrwr wedi'i arestio
- Damwain debyg arall – y gyrwyr wedi cyfnewid manylion, dim rhagor o weithredu
- Cam-drin plant ar lafar – achos sy'n parhau
- Person yn cysgu mewn fan mewn man parcio – wedi'i gyfeirio at y gwasanaeth lles
- Rhywun anhysbys wedi agor drws tŷ ond wedi gadael heb fynd i mewn iddo
- Beic cwad wedi'i ddwyn ond wedi'i gael yn ôl yn fuan
- Rhoddodd y swyddog gyngor ar sut i beidio i gael eich sgamio a'r gobaith oedd y bydd gweithdy anffurfiol ar gael yn fuan yn y siop i godi ymwybyddiaeth o'r drosedd hon a beth i'w wneud os ydych yn amau bod yr alwad ffôn yn un dwyllodrus.
- Yn dilyn cais gan drefnwyr y Gymanfa yng Nghapel Dyffryn, penderfynwyd gynnig cyfraniad o £150 tuag at gostau cynnal y digwyddiad.
- Bu cyfarfod ar safle'r rhandiroedd ddydd Gwener, 21 Mawrth i benderfynu sut i yrru ymlaen â'r project a'i wneud yn fwy agored i'r gymuned.
- Roedd y Cyngh. Parry wedi bod â swyddog priffyrdd Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd o gwmpas yr ardal i ddangos iddo gyflwr ofnadwy'r ffyrdd yn y gymuned. Fodd bynnag, oherwydd blaenoriaethau'r arian sydd ar gael, ni fydd mwyafrif y gyllideb o £2 filiwn ar gyfer y sir i gyd yn cael ei dargedu at ardaloedd gwledig, sy'n hynod siomedig. Mae'r '£25miliwn ychwanegol' y cyfeiriwyd ato yn ddiweddar yn y cyfryngau wedi'i rannu drwy 22 awdurdod Cymru ac yn targedu prif ffyrdd.




**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*